OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 3359

# Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Athrofa Brifysol Ewropeaidd) (Cymru) 2009

## RHAN 5

CYFRANIADAU

### Cyfraniad y myfyriwr

**27.**—(1) Cyfraniad myfyriwr cymwys mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd yw'r swm a gyfrifir o dan Atodlen 2, os oes unrhyw swm o gwbl.

(2) At ddibenion arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan y Rheoliadau hyn, caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr roi o dro i dro yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen er mwyn asesu cyfraniad y myfyriwr.

### Cymhwyso cyfraniad y myfyriwr

**28.** Rhaid i'r cyfraniad a gyfrifir yn unol â rheoliad 33 gael ei gymhwyso yn unol â rheoliad 27.

**29.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso cyfraniad y myfyriwr cymwys—

(a) yn gyntaf, i ostwng swm y grant at gostau byw a gyfrifir yn unol â rheoliad 16(3);

(b) yn ail—

(i) yn achos myfyriwr sy'n gymwys i gael y grant ar gyfer dibynyddion, i ostwng yn y drefn ganlynol—

(aa) swm unrhyw grant ar gyfer dibynyddion mewn oed a gyfrifir yn unol â rheoliad 24;

(bb) swm unrhyw lwfans dysgu rhieni a gyfrifir yn unol â rheoliad 24; ac

(cc) swm unrhyw grant ar gyfer teithio adref a gyfrifir yn unol â rheoliad 16(4);

(ii) mewn unrhyw achos arall, i ostwng swm y grant ar gyfer teithio adref a gyfrifir yn unol â rheoliad 16(4);

(c) yn drydydd, i ostwng swm y grant ar gyfer teithio colegol a gyfrifir yn unol â rheoliad 16(5).

(ch) yn bedwerydd, yn ddarostyngedig i baragraff (2), i ostwng swm y grant ar gyfer teithio i ymchwilio a gyfrifir yn unol â rheoliad 16(6).

(2) Os yw'r cyfraniad sydd ar gael i ostwng swm y grant ar gyfer teithio i ymchwilio yn unol â pharagraff (1)(ch) yn fwy na swm y grant hwnnw a gyfrifir o dan reoliad 16(6), swm y grant hwnnw sy'n daladwy i'r myfyriwr yw dim.